

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Sir Benfro

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Sir Benfro i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Sir Benfro 11 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac un yn rhannol.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Benfro 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae Sir Benfro wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod 2019/20. Dengys y lefelau uchel parhaus o foddhad, a welir yng nghanlyniadau'r arolwg, fod y gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd Sir Benfro yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl yn y gymuned. Mae Sir Benfro, yn wahanol i nifer o wasanaethau eraill, wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant a'r oriau agor. Fodd bynnag, mae nifer y defnyddwyr yn parhau'n isel o'i gymharu â'r canolrif. Mae ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant, ac yn gyffredinol mae'r amrediad eang o weithgareddau wedi cael eu cynnal, ac mae ffocws parhaus ar wella a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid nodi llwyddiant parhaus y bartneriaeth rhwng Sir Benfro â Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd – partneriaeth sy'n parhau'n gyflawniad sylweddol i'r awdurdod.

- Mae bodlonrwydd cwsmeriaid a ffigurau effaith ar ddefnyddwyr yn parhau'n uchel, ymhlith plant ac oedolion.
- Mae ymweliadau corfforol wedi cynyddu 40% er 2017/18, ac erbyn hyn maent yn llawer uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r cynnydd yn yr ymweliadau, i raddau helaeth, o ganlyniad i lyfrgell newydd Glan-yr-afon yn Hwlfordd.
- Gwelwyd cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, yn wahanol i'r patrwm, ond mae'r defnydd yn parhau'n is na'r canolrif.
- Gwelwyd gostyngiad o 29% yn y gyllideb ddeunyddiau er 2017/18, oherwydd yr angen i wneud arbedion (ac yn dilyn y buddsoddiad ychwanegol dros dro ar gyfer llyfrgell Glan-yr-afon), ac mae'r targed caffael (DA 9) yn parhau heb ei gyflawni.
- Er bod cynnydd dros dro bach yn yr oriau staffio cyffredinol, fel y rhan fwyaf o'r gwasanaethau llyfrgell eraill yng Nghymru, nid yw cyfanswm y staff na'r lefelau staffio proffesiynol yn cyflawni'r targed yn 2019/20.
- Mae'r oriau agor wedi cynyddu o ganlyniad i gynnydd mewn oriau agor yn llyfrgell Glan-yr-afon yn Hwlfordd, a gwelwyd cynnydd o 4.6% er 2017/18.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni 11 o'r 12 Hawl Graidd yn llawn ac yn cyflawni 1 yn rhannol. Gofynnir i ddefnyddwyr sy'n archebu llyfrau dalu ffi weinyddol, i dalu costau trosglwyddo teitlau y gwneir cais amdanynt i ddewis lyfrgell y darlennydd. Mae hyn yn groes i'r egwyddor o fynediad di-dâl a amlinellir yn HG 6, sydd o ganlyniad yn hawl wedi'i chyflawni'n rhannol. Nodir nad yw Sir Benfro, fel nifer fach o awdurdodau eraill, yn gallu cael mynediad at gynllun benthyciadau rhwng llyfrgelloedd er mwyn lleihau costau yn y maes hwn.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Sir Benfro yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac yn methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	X	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	X	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	X	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	√	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	√	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

Mae Sir Benfro wedi cynnal ei pherfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac ni fu unrhyw newidiadau arwyddocaol er 2018/19.

Mae Sir Benfro yn goruchwyllo tair llyfrgell a reolir gan y gymuned, sydd wedi'u cynnwys yn ei datganiad blynyddol, yn unol â'r canllawiau a roddwyd.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Benfro ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Mawrth 2020, ac mae wedi darparu ffigurau ar gyfer hyn, yr arolwg diweddaraf a gynhaliwyd yn ystod y fframwaith tair blynedd. Mae Sir Benfro yn cynnal arolwg oedolion a phlant unwaith y flwyddyn.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	97%	=1/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	95%	=2/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Benfro ddwy astudiaeth achos o'r fath:

- Llyfrgell deganau synhwyrdd – cyfle i blant lleol sydd ag anghenion ychwanegol fenthyca teganau a chyfarpar synhwyrdd. Mae adborth gan gwsmeriaid yn dangos effaith creu'r llyfrgell hon ar ddefnyddwyr drwy wella llesiant plant i alluogi rhieni i roi cynnig ar bethau cyn eu prynu. Er bod y defnydd wedi bod yn gymharol isel, mae cynlluniau i wneud rhagor o waith hyrwyddo yn y dyfodol agos.
- Rhaglen sgysiau – rhaglen flynyddol o sgysiau yn Llyfrgell Doc Penfro. Mae'r fenter hon yn gyfres o sgysiau gan awduron lleol, arbenigwyr a haneswyr lleol. Mae hyn wedi arwain at nifer o fanteision, gan gynnwys hybu stoc y llyfrgell, a chyfle i'r gymuned leol ddysgu am yr ardal leol. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac mae cyfanswm o 119 o bobl wedi dod i'r sgysiau min nos.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Benfro ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	90%	=4/18	25%	75%	94%	88%
c) iechyd a lles	96%	1/19	38%	69%	96%	94%
d) lle diogel a chroesawgar	98%	=5/19	90%	96%	100%	98%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	90%	=14/18	78%	91%	99%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/18	88%	97%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	90%	9/17	65%	85%	99%	91%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	98%	=5/18	85%	96%	100%	97%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.3	=7/19	8.0	9.1	9.5	9.1
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,328	6/22	2429	3987	6874	3,096
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,042	10/22	239	909	2131	1,059
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	137	12/22	78	145	244	142
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	361	18/22	311	680	1468	321
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	12	2/22	4	9	14	12
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	24%	=12/22	14%	30%	64%	22%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£10,518	14/22	£7,260	£12,448	£23,333	£11,378
b) % ar staff	58%	=13/22	48%	61%	76%	49%
% ar adnoddau gwybodaeth	10%	=15/22	5%	13%	22%	13%
% ar offer ac adeiladau	7%	=8/22	0%	8%	28%	4%
% ar gostau gweithredol eraill	25%	=8/22	1%	18%	35%	33%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£1,102	8/22	£0	£1,567	13,027	£8,829
DA 16 – Orlau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.98%	14/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Sir Benfro ei arolwg oedolion a'i arolwg plant ym mis Mawrth 2020, ac mae'n cynnal arolygon oedolion a phlant yn flynyddol. Mae nifer yr ymatebion ychydig yn llai nag arfer oherwydd Covid-19. Yn gyffredinol, mae mân welliannau o gymharu â chanlyniadau arolwg mis Mawrth 2019. Mae canran y bobl ifanc sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau wedi cynyddu 2%, a gwelwyd cynnydd hefyd yng nghyfarfod y sgôr gyffredinol a roddwyd allan o ddeg gan bobl ifanc. Mae pob llyfrgell sefydlog (llyfrgelloedd yr awdurdod a llyfrgelloedd sy'n cael eu hwyluso gan y gymuned) yn parhau i ddarparu'r ystod ofynnol o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, ac mae iechyd a llesiant hefyd yn cael cefnogaeth effeithiol, â chynnydd o 2% yng nghanran yr oedolion sydd wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a llesiant yn y llyfrgell. Mae nifer o bartneriaethau iechyd (25 i gyd) yn bodoli ledled y gwasanaethau. Nododd Sir Benfro fod ffigurau benthyca ar gyfer eu casgliad iechyd a llesiant wedi cynyddu o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae Sir Benfro yn parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac ni fu unrhyw newidiadau er 2017/18. Parhaodd ymweliadau corfforol i gynyddu yn 2019/20 gan adlewyrchu llwyddiant y llyfrgell newydd yn Hwlfordd. Mae ymweliadau corfforol wedi cynyddu 68% er 2017/18, ac erbyn hyn maent gryn dipyn yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Er bod aelodaeth llyfrgelloedd a nifer y benthycwyr gweithredol wedi gostwng, mae'r gwasanaeth yn nodi bod gwaith glanhau data wedi'i wneud, ac y gallai hynny fod wedi effeithio ar y ffigurau hyn. Gwelwyd cynnydd mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant, ond mae'r defnydd yn parhau'n is na'r canolrif. Mae lawrlwythiadau electronig wedi gweld cynnydd o 121% er 2017/18, sy'n adlewyrchu newid yn arferion cwsmeriaid ledled Cymru ac effaith y pandemig.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Gwelwyd gostyngiad o 29% yn y gyllideb deunyddiau er 2017/18, oherwydd yr angen i wneud arbedion (ac yn dilyn y buddsoddiad ychwanegol dros dro ar gyfer llyfrgell Glan-yr-afon), ac mae'r targedau caffael (DA 9) yn parhau heb eu cyflawni. Mae Sir Benfro yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r gwasanaeth hefyd yn nodi na chafodd eitemau a archebwyd eu derbyn ar y dyddiad y disgwyliad hwy gan fod y llyfrgelloedd wedi'u cau ym mis Mawrth 2020. Mae buddsoddiad mewn deunyddiau i blant wedi aros yr un fath at ei gilydd, ac mae'r targed ar gyfer deunyddiau Cymraeg (DA 10) wedi'i gyflawni. Er hyn, mae gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg 45% yn llai nag yr oedd yn 2018/19 ac mae'n parhau'n gymharol isel. Ni fu unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth gyfrifiaduron personol a gwelwyd cynnydd bach yn y defnydd, sydd bellach ar y lefel ganolrifol. Mae perfformiad mewn cysylltiad â chyflenwi ceisiadau wedi gostwng, ond mae'r targedau yma yn parhau i gael eu cyflawni.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Yn gyffredinol, mae lefelau staffio wedi cynyddu yn 2019/20 ac mae lefelau staff proffesiynol wedi'u cynnal. Mae Sir Benfro yn un o'r ychydig wasanaethau lle mae'r lefelau staffio wedi cynyddu yn 2019/20 – fodd bynnag, roedd hyn o ganlyniad i secondiad dros dro yn arwain at oriau staffio ychydig yn wahanol. Nid yw'r targedau staffio (DA 13) wedi'u cyflawni, ond mae cyfanswm y staff a'r lefelau staff proffesiynol yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Mae arweinyddiaeth gymwysedig yn bodoli o hyd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng er 2018/19. Mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif. Mae oriau agor wedi cynyddu o ganlyniad i gynnydd yn yr oriau agor yn llyfrgell Glan-yr-afon, Hwlfordd. Gwelwyd cynnydd o 4.6% er 2017/18, â'r perfformiad uwchben y canolrif yn braf, a'r targed (DA 16) yn parhau i gael ei gyflawni. Mae nifer yr arosfannau llyfrgell deithiol a gollwyd wedi cynyddu eto yn 2019/20, ac mae'r gwasanaeth yn nodi bod achosion na ellid eu hosgoi yn effeithio ar y maes hwn, er bod y ffigur yn parhau'n isel.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Amlinellir nodau Sir Benfro yn ei Strategaeth Llyfrgell 2015-2020. Llymder a newid technolegol yw'r ffactorau allanol sy'n hybu newid o hyd. Mae'r meysydd blaenoriaeth yn gysylltiedig â strategaethau Llywodraeth Cymru, er enghraifft: *ffyniannus a diogel, iach ac egnïol, uchelgeisiol ac yn dysgu, unedig a chysylltiedig*. Nododd y gwasanaeth waith ar y cyd â nifer o wahanol sefydliadau i wella sgiliau a chyflogadwyedd unigolion yn y gymuned. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at feysydd iechyd a llesiant drwy bartneriaethau â sefydliadau megis Cymdeithas Alzheimer, gan alluogi ystod ehangach o'r gymuned i ddefnyddio'r llyfrgell. Mae Sir Benfro yn gweithredu'n gydnaws ag amrywiaeth eang o nodau strategol.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, mae Sir Benfro yn cyfeirio at y gwaith o ddatblygu strategaeth Llyfrgell newydd, a phwysigrwyd ad-drefnu'r ddarpariaeth llyfrgell gan ystyried effaith Covid-19. Bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda phartneriaid amrywiol ym Mhenfro er mwyn creu cyfuniad o lyfrgell, canolfan wybodaeth i ymwelwyr a chanolfan ddehongli Harri'r VII. Bydd hwn yn ddatblygiad allweddol yn Sir Benfro. Mae'r cynlluniau eraill yn cynnwys darparu llyfrgell beilot 24/7 yn defnyddio technoleg newydd a fydd yn cael ei threalu, ac adleoli a gwella Llyfrgell Arberth yn y dyfodol. Bydd y bartneriaeth bresennol â Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn cael ei datblygu ymhellach, a bydd llyfrgell Glan-yr-afon yn Hwlfordd yn un o dri lleoliad yn y DU a fydd yn elwa o Daith Campweithiau 2020 yr Oriel Genedlaethol [Llundain] (*nodyn: cafodd Taith Campweithiau 2020 ei gohirio oherwydd Covid-19, a gobeithir ei chynnal yn 2021 yn awr*).

6 Casgliad

Mae Sir Benfro wedi parhau i berfformio'n dda yn ystod 2019/20. Dengys y lefelau uchel parhaus o foddhad, a welir yng nghanlyniadau'r arolwg, fod y gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd Sir Benfro yn cael eu gwerthfawrogi gan bobl yn y gymuned. Mae Sir

Benfro, yn wahanol i nifer o wasanaethau eraill, wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr, nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant a'r oriau agor. Fodd bynnag, mae nifer y defnyddwyr yn parhau i fod yn isel o'i gymharu â'r canolrif. Mae ymrwymiad cryf i iechyd a llesiant, ac yn gyffredinol mae'r amrediad eang o weithgareddau wedi cael eu cynnal, ac mae ffocws parhaus ar wella a datblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Dylid nodi llwyddiant parhaus y bartneriaeth rhwng Sir Benfro â Llyfrgell Genedlaethol Cymru hefyd – partneriaeth sy'n parhau i fod yn gyflawniad sylweddol i'r awdurdod.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.